| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **23 MAI 2024** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2023/2024** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

## 1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

1.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio***

***Mae Archwilio Mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, amddiffyn, gwarchod a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol, annibynnol yn seiliedig ar risg, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.***

## 2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS

2.1 Mae Nodyn CIPFA sy'n cymhwyso Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i Lywodraeth Leol (2019) yn datgan:

*"Mae pob sefydliad llywodraeth leol yn gyfrifol am sefydlu a chynnal prosesau rheoli risg priodol, systemau rheoli, cofnodion cyfrifo a threfniadau llywodraethu. Mae Archwiliad Mewnol yn chwarae rhan hanfodol drwy roi sicrwydd bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n briodol. Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol sydd yn ofynnol yn y Safonau yn gwybyddu'r datganiad llywodraethu, ac yn pwysleisio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd yr agwedd hon ar waith archwilio mewnol."*

2.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2023/2024 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

2.3 Cyflwynwyd rhaglen waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2023/2024 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Mai 2023. Roedd y cynllun archwilio blynyddol yn gynllun hyblyg i sicrhau y rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor.

**3. SICRWYDD CYFFREDINOL**

3.1 Mae barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn seiliedig ar dair agwedd o drefniadau'r Awdurdod:

- Llywodraethu
- Rheoli Risg
- Rheolaeth Fewnol

3.2 Mae canlyniadau'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol, ynghyd â ffynonellau sicrwydd eraill, yn cefnogi'r farn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yr Awdurdod.

3.3 **Ystyriaethau**

Mae fy marn flynyddol yn seiliedig ar dystiolaeth yn deillio o ystod archwiliadau a gynhaliwyd ar draws y Cyngor. Mae'r gwerth a ddarperir gan Archwilio Mewnol yn y gwaith manwl a wneir a'r wybodaeth a'r cyngor a ddarperir i reolwyr gwasanaethau ar reolaethau mewnol, prosesau a gweithdrefnau, ac yn eu asesiad o'r camau gweithredu i liniaru risgiau cynhenid i lefel dderbyniol. Wrth lunio fy marn, rhoddwyd ystyriaeth i'r nifer o archwiliadau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod 2023/2024 ynghyd ag adlewyrchiad o fy mhrofiad o fewn fy rôl yn Archwilio Mewnol dros y blynyddoedd blaenorol a fy marn am safon a gweithrediad y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Grŵp Rheoli ac Uwch Reolwyr. Rwyf wedi defnyddio tystiolaeth a ddarparwyd gan reoleiddwyr allanol i gefnogi fy marn am y flwyddyn.

Er mwyn rhoi fy marn flynyddol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor a archwiliwyd.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg. Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Hydref 2023 i ddiweddaru am ddatblygiadau yn y maes rheoli risg, y camau gweithredu nesaf i gryfhau ymhellach y trefniadau rheoli risg.

- Mae'r 24 risg llywodraethu sydd wedi cael eu hadnabod yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (fel a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Hydref 2023) yn cael eu hasesu'n barhaus gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Mae'r Awdurdod wedi derbyn nifer o adroddiadau gan reoleiddwyr yn ystod 2023/2024:
    - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 – Archwilydd Cyffredinol. Mynegir yn yr adroddiad "***Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn cywir a theg ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 22 Ionawr 2024***".
    - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022 – Mynegir y ***"cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod a'n gwybodaeth am yr Awdurdod"***.
    - Adroddiad ar Wasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd – Estyn. Cyhoeddodd Estyn eu hadroddiad ym mis Medi 2023 ac yn eu crynodeb, maent yn datgan: *At ei gilydd a thros amser mae deilliannau arolygiadau o ysgolion a lleoliadau addysg eraill Cyngor Gwynedd yn gryf. Mae'r awdurdod yn gweithio'n gynhyrchiol gyda gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol y gogledd (GwE) er mwyn cefnogi darparwyr ac mae gan swyddogion yr awdurdod a GwE adnabyddiaeth dda ohonynt….. Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth dda o'r sefyllfa ariannol o fewn y gwasanaeth addysg. Yn hanesyddol, mae'r awdurdod wedi llwyddo i warchod y gwasanaeth rhag toriadau ond mae hyn wedi profi'n fwy heriol yn sgil yr heriau ariannol cyfredol."*

3.4 **Barn Flynyddol**

**Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2023/2024, yn fy marn i, mae fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/2024 yn gweithredu ar lefel a rydd sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol. Mae hyn yn seiliedig ar yr archwiliadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.**

## 4. GWAITH ARCHWILIO

### Cynllun Archwilio

4.1 Roedd 30 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2023/2024. Cafodd 29 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2024, sy'n cynrychioli **96.67%** o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.

4.2 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2023/2024 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

4.3 Ble'n berthnasol, caiff lefel sicrwydd ei ddarparu ar gyfer yr adroddiadau archwiliad mewnol sydd yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg cyfatebol. Mae'r sgôr risgiau cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

| LEFEL RISG | SGÔR |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 20 - 25 |
| UCHEL | 12 - 16 |
| CANOLIG | 6 - 10 |
| ISEL | 1 - 5 |

4.4 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod:

| LEFEL SICRWYDD | DIFFINIAD |
|---|---|
| UCHEL | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| DIGONOL | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| CYFYNGEDIG | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| DIM SICRWYDD | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

4.5 Nod pob un o'r gweithrediadau cytunedig o fewn yr adroddiadau oedd cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol ac i sefydlu ymarfer da.

4.6 O’r 29 aseiniad yng nghynllun archwilio 2023/2024 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y lefelau sicrwydd canlynol:

| Lefel Sicrwydd | Nifer Archwiliadau |
|---|---|
| Uchel | 8 |
| Digonol | 15 |
| Cyfyngedig | 3 |
| Dim Sicrwydd | 0 |
| Dim Categori | 3 |
| **Cyfanswm** | **29** |

4.7 O’r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2023/2024 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 88.46% (sef 23 allan o 26) ohonynt lefel sicrwydd “Digonol” neu “Uchel”.

4.8 Derbyniodd 3 archwiliad lefel “Cyfyngedig” ac ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel “Dim Sicrwydd”.

4.9 Caiff yr adroddiadau llawn eu cyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar ôl i’r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda’r cleiant a’i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori sicrwydd, mae’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau’r archwiliadau perthnasol ble’n briodol.

4.10 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2023/2024. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| Dyddiad Rhyddhau’r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol | Dyddiad Adrodd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
|---|---|
| 1 Ebrill 2023 - 30 Medi 2023 | 12 Hydref 2023 |
| 1 Hydref 2023 - 30 Tachwedd 2023 | 14 Rhagfyr 2023 |
| 1 Rhagfyr 2023 - 31 Mawrth 2023 | 23 Mai 2024 |

**Addasiadau i’r Cynllun**

4.11 Adroddwyd i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i’r cynllun archwilio.

**Gwaith Dilyniant**

4.12 Allan o’r 104 gweithrediad cytunedig a wnaethpwyd yn 2022/2023, roedd 3 bellach yn amherthnasol. Ar gyfer y 101 oedd yn weddill, roedd gweithrediad derbyniol ar **95%** ohonynt erbyn 31 Mawrth 2024.

**Gweithgor Gwella Rheolaethau**

4.13 Mae'r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) wedi ei sefydlu i gwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i drafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn mwy o ddyfnder. Caiff swyddogion eu gwahodd i'r Gweithgor i egluro'r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella'r sefyllfa. Nid yw'r Gweithgor wedi cwrdd yn ystod 2023/24; mae'n fwriad i ail-gychwyn gyda cyfarfodydd y Gweithgor Gwella Rheolaethau yn 2024/25 fel bo'r angen.

## 5. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

**Staffio a Chymwysterau**

5.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth "Pennaeth Archwilio Mewnol". Mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio ac un Arweinydd Archwilio cymhwyster CIPFA llawn ac mae gan yr Arweinydd arall gymhwyster llawn ACCA. Mae tri Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster CIPFA ar hyn o bryd.

5.2 Ers 1 Ebrill 2024, 7 aelod llawn amser sydd i'r Tîm Archwilio Mewnol.

**Y defnydd a wneir o adnoddau staff**

5.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos gostyngiad sylweddol yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd o **703** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 i **389** diwrnod am yr un cyfnod yn 2023/2024, gostyngiad o **314** diwrnod.
- Ni ddefnyddiwyd unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 2022/2023, o gymharu â 45 o ddiwrnodau yn 2023/2024.

## 6. PERFFORMIAD ARCHWILIO

6.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2023/2024 fel a ganlyn:

| Disgrifiad Mesurydd | Perfformiad 2022/23 | Uchelgais 2023/24 | Canlyniadau 2023/24 |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau. | **97.56%** | 95% | **96.67%** |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol). | **77.14%** | 80% | **88.46%** |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). | **60.00%** | 100% | **86.67%** |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). | **66.67%** | 85% | **98.60%** |

## 7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2024/2025

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol 2024/2025 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2024.

7.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Mesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/2025 yw:

| **Mesur** | **Uchelgais 2024/2025** | **Cyfeiriad Uchelgais** |
|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau. | 95% | Cynnal |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol). | 80% | Cynnal |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). | 100% | ⇧ |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). | 85% | Cynnal |

**8. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT ARCHWILIO MEWNOL**

8.1 Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 ganlyniad yr hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ynghyd â'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad allanol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019. Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

8.2 Argymhellir bod cyrff y sector gyhoeddus yn adolygu eu gweithdrefnau archwilio yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS) o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd canlyniadau'r hunanasesiad yn erbyn y safonau a'r Nodyn diwygiedig i Lywodraeth Leol (2019) yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2024/2025 yn ogystal a chanlyniadau'r asesiad allanol.

**9. ARGYMHELLIAD**

9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2023/2024.

Atodiad 1

# CYNLLUN ARCHWILIO 2023/2024

| Adran | Archwiliad | Statws yr Archwiliad | Lefel Sicrwydd | Dyddiad Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|
| Addysg | Balansau Wrth Gefn Ysgolion | Wedi canslo | | |
| | Cronfeydd Answyddogol Ysgol | Adroddiad Terfynol | Digonol | 23/05/2024 |
| | Grant Addysg Awdurdod Lleol 22/23 | Wedi canslo | | |
| | Grant Addysg Ôl-16 | Adroddiad Terfynol | Uchel | 23/05/2024 |
| | Ysgolion Cyffredinol | Wedi cau | Dim Categori | |
| | | | | |
| Amgylchedd | Dilyniant - Trefniadau Cyfathrebu Cynllunio | Adroddiad Terfynol | Digonol | 23/05/2024 |
| | Gwasanaeth Cefn Gwlad | Wedi canslo | | |
| | Traffig a Phrosiectau | Wedi canslo | | |
| | Gwastraff Gardd | Adroddiad Terfynol | Digonol | 23/05/2024 |
| | Gwastraff Swmpus | Adroddiad Terfynol | Digonol | 23/05/2024 |
| | Dilyniant Diogelwch Tacsis | Adroddiad Terfynol | Digonol | 12/10/2023 |
| | Rheolaeth Categori Corfforaethol | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 23/05/2024 |
| | | | | |
| Corfforaethol | Cynghori ac Ymgynghoriaeth, Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | Wedi cau | Dim Categori | |
| | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol | Wedi cau | Dim Categori | |
| | Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio | Wedi canslo | | |
| | Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | Adroddiad Terfynol | Digonol | 23/05/2024 |
| | Trefniadau Diogelu- Sefydliadau | Adroddiad Terfynol | Digonol | 23/05/2024 |
| | Trefniadau Talu ac Awdurdodi (Data Analytics) | Wedi canslo | | |
| | | | | |
| Cyllid | Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd | Adroddiad Terfynol | Uchel | 12/10/2023 |
| | Cyflogau Athrawon | Adroddiad Terfynol | Digonol | 12/10/2023 |
| | Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2022-23 | Adroddiad Terfynol | Uchel | 12/10/2023 |
| | Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2022-23 | Adroddiad Terfynol | Uchel | 12/10/2023 |

| Adran | Archwiliad | Statws yr Archwiliad | Lefel Sicrwydd | Dyddiad Pwyllgor |
|---|---|---|---|---|
| | Rheolaethau Allweddol Budd-Daliadau | Adroddiad Terfynol | Uchel | 23/05/2024 |
| | | | | |
| Economi a Chymuned | Amgueddfa Lloyd George | Adroddiad Terfynol | Uchel | 12/10/2023 |
| | Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF - Shared Prosperity Fund) | Wedi canslo | | |
| | Cronfa'r Degwm | Adroddiad Terfynol | Uchel | 12/10/2023 |
| | | | | |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cartref Plas Maesincla | Adroddiad Terfynol | Digonol | 14/12/2023 |
| | Cartref Plas Ogwen | Adroddiad Terfynol | Digonol | 14/12/2023 |
| | Cartref Cefn Rodyn | Adroddiad Terfynol | Digonol | 23/05/2023 |
| | Dilyniant - Cartref Preswyl Mawddwy | Adroddiad Terfynol | Digonol | 14/12/2023 |
| | Dilyniant - Cartref Bryn Blodau | Adroddiad Terfynol | Digonol | 14/12/2023 |
| | Dilyniant - Cartref Preswyl Plas Gwilym | Adroddiad Terfynol | Digonol | 14/12/2023 |
| | Tîm Trawsffurfio | Wedi canslo | | |
| | Diogeliadau Amddifyn Rhyddid - Dilyniant | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 23/05/2024 |
| | | | | |
| Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Gwaith Mewndirol ac Arfordirol y Strategaeth FCERM Lleol | Wedi canslo | | |
| | Incwm Masnachol | Adroddiad Terfynol | Cyfyngedig | 23/05/2024 |
| | Trefniadau ar ddyletswydd Priffyrdd | Wedi canslo | | |
| | Clefyd Gwywiad Yr Onnen (Ash Dieback) | Wedi canslo | | |
| | | | | |
| Tai ac Eiddo | Grant Cymorth Tai | Adroddiad Terfynol | Digonol | 12/10/2023 |
| | Manddaliadau - Dilyniant | Gwaith ar y gweill | | |
| | Unedau Diwydiannol | Adroddiad Terfynol | Uchel | 14/12/2023 |
| | | | | |
| Tim Arweinyddiaeth | Cynllunio ar gyfer newid mewn cyfraith etholiadau | Wedi canslo | | |

**Atodiad 2**

**Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:**

| **2022/23** | | **2023/2024** |
|---|---|---|
| **1,960** | **Cyfanswm Dyddiau** | **1,603** |
| | | |
| 230 | Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Blynyddol | 218 |
| 69 | Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Statudol | 54 |
| 299 | *Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol)* | 272 |
| | | |
| **1,661** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **1,331** |
| | *Llai:* | |
| 22 | Gwyliau Arbennig | 14 |
| 258 | Salwch a Dychwelyd yn Raddol | 202 |
| | Mamolaeth a Cadw Mewn Cysylltiad | 151 |
| 33 | Hyfforddiant Swydd a Phroffesiynol | 22 |
| **1,348** | **Dyddiau ar gael** | **942** |
| | | |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| | Apwyntiadau Meddygol | |
| | Cofnodi a Rheoli Amser | |
| | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | |
| | Cyflwyno Hyfforddiant | |
| | Gwaith Cefndirol | |
| | Gweinyddiaeth ayb. | |
| | Prosiect iGwynedd | |
| | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | |
| | Rheolaeth Archwilio Mewnol | |
| | Rheoli Absenoldebau | |
| | Trafferthion TG | |
| | Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol | |
| | Cyfarfodydd (WCAG a N&MWAP) | |
| | Cyfarfodydd/Gwaith ar y cyd ag Archwilwyr Allanol | |
| | | |
| 345 | *Cyfanswm sydd ddim yn cyfrannu i'r Cynllun* | 336 |
| | | |
| **1,004** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **606** |
| | | |
| 117 | Gwaith APCE | 42 |
| 94 | Cynghorau Tref a Chymuned | 111 |
| 55 | Byw'n Iach Cyf. | 45 |
| | BUEGC | 12 |
| 22 | Secondiadau | 7 |
| 13 | GwE | 0 |
| **703** | **Cyfanswm dyddiau cynhyrchiol, Cyngor Gwynedd** | **389** |

**Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:**

| **2022/23** | | **2023/24** |
|---|---|---|
| 636 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 333 |
| 18 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 0 |
| 2 | Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol | 11 |
| 31 | Cynghori | - |
| 25 | Gwaith dilyniant | - |
| 0 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 45 |
| **703** | | **389** |

**Atodiad 3**

| RHIF GWEITHRED | SAFON PSIAS | CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON | GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG | CYFRIFOLDEB | AMSERLEN WREIDDIOL | CYNNYDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01 | ***1110 - Annibyniaeth Cyfundrefnol*** | A chwilir am adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwerthuso perfformiad y prif weithredwr archwilio? | Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu cynllun gwerthuso 360-gradd ar gyfer rheolwyr - dylai bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn gwahoddiad i roi adborth ar berfformiad y Rheolwr Archwilio yn y cyfarfod gwerthuso nesaf. | Pennaeth Cyllid | 31/03/2018 | Nid oes datblygiad gyda'r cynllun gwerthuso 360-gradd. Mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid. |
| 02 | ***1310 – Gofynion y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol | Cynhaliwyd asesiad allanol gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gâr yn unol â threfniadau adolygiad cyfoedion Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG) ac mae'r asesiad nesaf wedi ei gynllunio ar gyfer Hydref 2024. | Rheolwr Archwilio | 31/12/2017 | Mae'r asesiad allanol wedi ei gynllunio ar gyfer Hydref 2024 i'w gynnal gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Ddinbych. |
| 03 | ***1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd ar ganlyniadau'r asesiad allanol i'r uwch reolwyr a'r bwrdd? | Canlyniadau'r asesiad allanol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | Rheolwr Archwilio | 08/02/2018 | Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad allanol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Hydref 2019. |
| 04 | ***1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw canlyniadau monitro'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant a chynnydd yn erbyn y cynllun gwella yn cael eu hadrodd yn flynyddol o leiaf? | Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. | Rheolwr Archwilio | 10/05/2018 | Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol. |

| RHIF GWEITHRED | SAFON PSIAS | CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON | GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG | CYFRIFOLDEB | AMSERLEN WREIDDIOL | CYNNYDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 05 | ***1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw'r canlyniadau yn cynnwys gwerthusiad yr asesydd neu'r tîm asesu o safbwynt i raddau cydymffurfiaeth y weithgaredd archwilio mewnol gyda'r Safonau? | Gwerthusiadau'r asesiadau allanol i'w hymgorffori yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. | Rheolwr Archwilio | 10/05/2018 | Mae hyn wedi ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio. |
| 06 | ***1322 – Datgelu Diffyg Cydymffurfiaeth*** | A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd am unrhyw ddiffyg o gydymffurfio â'r safonau i'r bwrdd? | Unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth i'w haradrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac unrhyw wyriadau arwyddocaol i'w cynnwys yn y datganiad llywodraethu blynyddol. | Rheolwr Archwilio a'r Pennaeth Cyllid | Fel yr angen | Nid oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth nac unrhyw wyriadau arwyddocaol. |
| 07 | ***2450 – barn Gyffredinol*** | A yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys:<br>a) Datganiad ar gydymffurfiaeth â'r Safonau?<br>b) Canlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant?<br>Cynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant? | Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol i ymgorffori datganiad o gydymffurfiaeth â'r Safonau a chynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. | Rheolwr Archwilio | 10/05/2018 | Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol – caiff hyn ei wneud yn flynyddol. |